**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2022**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Win Mullen-James. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.* |
| **5** | CYMERADWYO CAIS CRONFA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU – ETHOLAETH GORLLEWIN CLWYD | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) ailadrodd ei gefnogaeth i'r prosiectau arfaethedig a gefnogwyd yn flaenorol gan y Cabinet a gwerth dangosol bras pob prosiect;*<br><br>*(b) rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd a'r Arweinydd, i fireinio'r prosiectau a'r costau cysylltiedig yn ôl yr angen a chytuno i gais annibynnol gan Gyngor Sir Ddinbych gael ei gyflwyno ar gyfer Rownd 2 Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd, a*<br><br>*(c) chadarnhau bod y penderfyniad hwn yn cael ei roi ar waith ar unwaith heb gael ei alw i mewn.* |
| **6** | CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH STRATEGOL YNG NGHYNGOR SIR DDINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi datblygiadau diweddar, ac yn cymeradwyo'r gwaith o ffurfio Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth dan arweiniad Aelodau (i'w adolygu ar ôl 12 mis i ystyried a oes angen i'r Grŵp ddod i ben, newid a/neu ddathlu cyflawniadau).* |
| **7** | DYFODOL PARTNERIAETH ADEILADU GOGLEDD CYMRU - | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r gwaith o ymestyn y Fframwaith am flwyddyn, a fydd yn rhoi amser i brosiectau barhau i gael eu gosod yn unol â'r rhaglen. Bydd* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2022**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | FFRAMWAITH PRIF GONTRACTWYR | *hefyd yn caniatáu amser i ddeddfwriaeth gaffael ddisgwyliedig Llywodraeth y DU a Chymru gael ei rhyddhau a/neu ei hymgorffori yn y prosesau, i'w defnyddio wrth gaffael Fframwaith newydd.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni;*<br><br>*(b) nodi'r ddogfen 'Crynodeb o'r Gyllideb' sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad ac, fel yn y blynyddoedd blaenorol, cytuno i'w chyhoeddi ar y rhyngrwyd, a*<br><br>*(c) chymeradwyo'r gwaith o ddileu Ardrethi Busnes na ellir eu hadennill, fel y nodir yn Adran 6.9 yr adroddiad.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.* |